Dull AGChY o Addysgu Gymnasteg
Trosolwg o Uned 13

Canlyniadau ar gyfer Uned 13
Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:
- Dod o hyd i atebion i wahanol heriau
- Cynnig syniadau ar gyfer dilyniant i bâr
- Gweithio ar eu pen eu hunain ac mewn pâr i greu a pherfformio dilyniant sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth
- Gwylio perfformiad ei gilydd a dweud beth sy'n dda amdano a beth allai fod yn well
- Defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gynllunio sut i wella eu sgiliau eu hunain
- Adnabod rhai o'r egwyddorion sy'n sail i weithgareddau creadigol
- Cyfleu syniadau'n glir i bartner

Canlyniadau gwers 1	Canlyniadau gwers 2	Canlyniadau gwers 3	Canlyniadau gwers 4	Canlyniadau gwers 5	Canlyniadau gwers 6
- Dod o hyd i atebion i wahanol heriau - Atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd yn flaenorol mewn perthynas â gweithgareddau addysgu'r corff - Gweithio ar eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr - Gwylio perfformiad ei gilydd a dweud beth sy'n dda amdano a beth allai fod yn well	- Dod o hyd i atebion i wahanol heriau - Gweithio ar eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y cyfarpar - Atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd yn flaenorol mewn perthynas â gweithgareddau addysgu'r corff ac agweddau ar amrywiaeth	- Dod o hyd i atebion i wahanol heriau - Cynnig syniadau ar gyfer dilyniant i bâr - Gweithio mewn pâr i greu a pherfformio dilyniant ar y cyfarpar - Gwylio perfformiad ei gilydd a dweud beth sy'n dda amdano a beth allai fod yn well - Defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gynllunio sut i wella eu sgiliau eu hunain - Cyfleu syniadau'n glir i bartner	- Cynnig syniadau ar gyfer dilyniant i bâr - Gweithio mewn pâr i greu a pherfformio dilyniant ar y cyfarpar - Adnabod rhai o'r egwyddorion sy'n sail i weithgareddau creadigol - Cyfleu syniadau'n glir i bartner	- Cynnig syniadau ar gyfer dilyniant i bâr - Gweithio ar eu pen eu hunain ac mewn pâr i greu dilyniant ar y llawr ac ar y cyfarpar - Gwylio perfformiad ei gilydd a dweud beth sy'n dda amdano a beth allai fod yn well - Defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gynllunio sut i wella eu sgiliau eu hunain - Adnabod rhai o'r egwyddorion sy'n sail i weithgareddau creadigol - Cyfleu syniadau'n glir i bartner	- Gweithio ar eu pen eu hunain ac mewn pâr i greu a pherfformio dilyniant sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth - Gwylio perfformiad ei gilydd a dweud beth sy'n dda amdano a beth allai fod yn well - Defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gynllunio sut i wella eu sgiliau eu hunain

Modiwl 3	Cynllun gwers enghreifftiol	Uned 13 Gwers 1

Canlyniadau ar gyfer Uned 13

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Dod o hyd i atebion i wahanol heriau
- Cynnig syniadau ar gyfer dilyniant i bâr
- Gweithio ar eu pen eu hunain ac mewn pâr i greu a pherfformio dilyniant sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth
- Gwylio perfformiad ei gilydd a dweud beth sy'n dda amdano a beth allai fod yn well
- Defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gynllunio sut i wella eu sgiliau eu hunain
- Adnabod rhai o'r egwyddorion sy'n sail i weithgareddau creadigol
- Cyfleu syniadau'n glir i bartner

Canlyniadau Gwers 1

Ar ôl cwblhau'r wers hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Dod o hyd i atebion i wahanol heriau
- Atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd yn flaenorol mewn perthynas â gweithgareddau addysgu'r corff
- Gweithio ar eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr
- Gwylio perfformiad ei gilydd a dweud beth sy'n dda amdano a beth allai fod yn well

Adolygu

Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu gan ddefnyddio'r Cerdyn Adnoddau o Fodiwl 2 - Rhoi Edau mewn Nodwydd. Wrth i bob dysgwr newydd ddod i flaen y llinell, mae'r athro'n galw gwahanol weithred sylfaenol, er enghraifft teithio, neidio, rholio neu deithio ac yna cydbwyso, i'r dysgwyr gael ymateb iddynt. Adolygwch rai o'r gweithgareddau addysgu'r corff y mae'r dysgwyr wedi dod ar eu traws hyd yn hyn ym Modiwl 1 a 2. Trafodwch pa gategori o weithrediadau sylfaenol y mae'r gweithgareddau hyn yn perthyn iddo, a sut gallech amrywio eich gweithrediadau trwy newid cyfeiriad, lefel, cyflymder, llwybr neu faint y symudiad. Gofynnwch i'r dysgwyr ddychwelyd at y gweithgaredd ac arddangos ystod ehangach o weithgareddau ac amrywiaeth. Dylai Taflenni Gwybodaeth Modiwl 1 a 2 fod ar gael i'r dysgwyr gael edrych arnynt.

Archwilio

Rhowch broblemau i'r dysgwyr eu datrys ar eu pen eu hunain - er enghraifft, Dewch o hyd i bedair ffordd o deithio gan ddefnyddio'ch dwylo a'ch traed yn unig; Dewch o hyd i dair ffordd o deithio ar eich traed; Dewch o hyd i dri gweithgaredd addysgu'r corff y gallwch eu gwneud yn gyflym iawn ac yn araf iawn gan reoli'r modd yr ydych yn cyflymu neu'n arafu; Dewch o hyd i ddau weithgaredd addysgu'r corff y gallwch eu perfformio ar lefel isel, ganolig ac uchel; Dewch o hyd i ddau weithgaredd addysgu'r corff y gallwch eu perfformio ar hyd llwybr ffigwr 8; Dewch o hyd i dri chyfuniad gwahanol ar gyfer perfformio rhôl ac yna gweithred deithio. Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio'u corff i archwilio'r heriau hyn. Gweler yr adran Heriau i Ddysgwyr am ragor o syniadau. Gallai'r tasgau gael eu gwahaniaethu i gyd-fynd â gallu'r dysgwyr. Anogwch y dysgwyr i fod mor greadigol ag y gallant a defnyddio cynifer o'r gweithgareddau addysgu'r corff ag y gallant.

Creu

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r heriau i greu dilyniant o weithgareddau addysgu'r corff ar y llawr, sy'n llifo'n rhwydd ac sy'n cael ei berfformio â gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth. Rhaid i'r dysgwyr benderfynu ym mha drefn y byddant yn perfformio'r heriau yn eu dilyniant er mwyn creu dilyniant llyfn. Rhaid i'r dysgwyr gynnwys tri chôn neu farciwr yn eu dilyniant hefyd i'w helpu â chyfeiriad a'r defnydd y maent yn ei wneud o'r lle sydd ar gael. Rhaid i'r dysgwyr benderfynu lle maent am osod eu conau/marcwyr, a sut i'w cynnwys yn eu dilyniant.

Ymyrryd

Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos atebion effeithiol i'w heriau. Beth sy'n eu gwneud yn effeithiol? Trafodwch atebion posibl eraill i'r heriau: a fyddai'r rhain yn fwy neu'n llai effeithiol na'r atebion sy'n cael eu cyflwyno gan y dysgwyr, a pham? Trafodwch yr hyn a ddysgwyd yn flaenorol; sicrhewch bod y dysgwyr yn ystyried yr ystod ehangaf posibl o weithgareddau addysgu'r corff. Trafodwch y defnydd a wnaed o gonau/marcwyr: Ym mha ffyrdd eraill y gallent fod wedi cael eu defnyddio? Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos sgiliau cydsymud a rheolaeth: sut maent wedi llwyddo i wneud hynny? Edrychwch ar waith y dysgwyr a thrafodwch beth sy'n dda amdano, pam ei fod yn dda a beth sy'n ei wneud yn dda? Trafodwch sut gallai'r dilyniant gael ei wella; ystyriwch ddefnyddio cwestiynau a chwestiynau heriol (gweler gwefan/CD-Rom y Dull AGChY o Addysgu Dawns – CA2).

Perfformio

Gofynnwch i'r dysgwyr berfformio eu dilyniant i bartner. Gofynnwch iddynt ddweud wrth eu partner pa heriau a ddefnyddiwyd i greu eu dilyniant.

Gwerthuso

Sesiwn werthuso gan gyfoedion a gaiff ei harwain gan yr athro. Beth oedd yr elfennau trawiadol, beth oedd yn dda am y dilyniant a pham? Pa mor effeithiol oeddent o ran ateb yr heriau? Pa agwedd ar y dilyniant allai gael ei gwella? Trafodwch awgrymiadau ynghylch sut gallai'r gwelliannau hyn gael eu cyflawni. Dylai pob dysgwr osod targed ar gyfer y wers nesaf.

Modiwl 3	Cynllun gwers enghreifftiol	Uned 13 Gwers 2

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Dod o hyd i atebion i wahanol heriau
- Cynnig syniadau ar gyfer dilyniant i bâr
- Gweithio ar eu pen eu hunain ac mewn pâr i greu a pherfformio dilyniant sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth
- Gwylio perfformiad ei gilydd a dweud beth sy'n dda amdano a beth allai fod yn well
- Defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gynllunio sut i wella eu sgiliau eu hunain
- Adnabod rhai o'r egwyddorion sy'n sail i weithgareddau creadigol
- Cyfleu syniadau'n glir i bartner

Canlyniadau Gwers 2

Ar ôl cwblhau'r wers hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Dod o hyd i atebion i wahanol heriau
- Gweithio ar eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y cyfarpar
- Atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd yn flaenorol mewn perthynas â gweithgareddau addysgu'r corff ac agweddau ar amrywiaeth

Adolygu

Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu gan ddefnyddio 'Siwrnai James' - stori addysgu'r corff o Fodiwl 2 y Dull AGChY o Addysgu Gymnasteg. Adolygwch y targed a osodwyd yr wythnos diwethaf; gofynnwch i'r dysgwyr drafod ffyrdd o gyrraedd eu targed â'u partner. Ewch ati i ymarfer er mwyn gwella. Tynnwch y cyfarpar allan.

Archwilio

Rhowch heriau newydd mwy cymhleth i'r dysgwyr gael eu cyflawni ar eu pen eu hunain - er enghraifft, Dewch o hyd i bedair ffordd o deithio a throi gan ddefnyddio'ch dwylo a'ch traed yn unig; Dewch o hyd i dair ffordd o neidio a glanio ar y cyfarpar; Dewch o hyd i dri chyfuniad gwahanol ar gyfer perfformio gweithred deithio ac yna rhôl y gallwch eu gwneud yn gyflym iawn ac yn araf iawn gan reoli'r modd yr ydych yn cyflymu neu'n arafu; Dewch o hyd i ddau gyfuniad ar gyfer neidio ac yna cydbwyso y gallwch eu perfformio ar lefel isel, ganolig ac uchel; Dewch o hyd i ddau wahanol gyfuniad ar gyfer perfformio rhôl ac yna gweithred deithio y gallwch eu perfformio ar hyd llwybr siâp cylch; Dewch o hyd i dri chyfuniad gwahanol ar gyfer perfformio gweithred gydbwyso ac yna rhôl. Gweler yr adran Heriau i Ddysgwyr am ragor o syniadau. Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio'u corff i archwilio'r heriau hyn. Gallai'r tasgau gael eu gwahaniaethu i gyd-fynd â gallu'r dysgwyr. Anogwch y dysgwyr i fod mor greadigol ag y gallant a defnyddio cynifer o'r gweithgareddau addysgu'r corff ag y gallant. Dylai Taflenni Gwybodaeth Modiwl 1 a 2 fod ar gael i'r dysgwyr gael edrych arnynt. Y dysgwyr fydd yn penderfynu ym mha drefn y byddant yn cysylltu'r heriau. Yna, rhaid i'r dysgwyr gynllunio cynllun cyfarpar ar gyfer perfformio eu dilyniant. Gofynnwch i'r dysgwyr archwilio posibiliadau'r cyfarpar, gan newid trefn y cyfarpar wrth iddynt weithio trwy eu dilyniant. Mae'n bosibl y bydd angen i chi ofyn i'r dysgwyr ddefnyddio darnau penodol o gyfarpar, yn dibynnu ar y cyfarpar a'r lle sydd ar gael. Mae'n bosibl y bydd angen i'r dysgwyr drafod â'i gilydd er mwyn rhoi'r cyfarpar yn y mannau y maent yn dymuno.

Creu

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r heriau i greu dilyniant o weithgareddau addysgu'r corff ar y cyfarpar, sy'n llifo'n rhwydd ac sy'n cael ei berfformio â gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth. Rhaid i'r dysgwyr benderfynu ym mha drefn y byddant yn perfformio'r heriau yn eu dilyniant er mwyn creu dilyniant llyfn. Rhaid i'r dysgwyr benderfynu sut bydd y cyfarpar yn cael ei drefnu a sut byddant yn defnyddio'r cyfarpar yn eu dilyniant hefyd.

Ymyrryd

Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos atebion effeithiol i'w heriau. Beth sy'n eu gwneud yn effeithiol? Trafodwch atebion posibl eraill i'r heriau: a fyddai'r rhain yn fwy neu'n llai effeithiol na'r atebion sy'n cael eu cynnig gan y dysgwyr, a pham? Trafodwch yr hyn a ddysgwyd yn flaenorol; sicrhewch bod y dysgwyr yn ystyried yr ystod ehangaf posibl o weithgareddau addysgu'r corff. Trafodwch y defnydd a wnaed o gyfarpar: pa mor effeithiol y mae'r dysgwyr yn defnyddio'r cyfarpar? Sut gallai hyn gael ei wella? A oes darnau eraill o gyfarpar y gellid eu defnyddio? Sut byddai hyn yn gwella'r dilyniant? Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos sgiliau cydsymud a rheolaeth: sut maent wedi llwyddo i wneud hynny?

Perfformio

Gofynnwch i'r dysgwyr berfformio'r dilyniant i bartner.

Gwerthuso

Sesiwn werthuso gan gyfoedion a gaiff ei harwain gan yr athro. Gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r dysgwyr a gafodd un neu ddwy her i weithio arnynt. Pa atebion ddaeth y dysgwyr o hyd iddynt wrth ymateb i'r heriau hyn? A oes atebion eraill i'w cael, ac os felly, beth ydynt? A fyddai hyn yn gwella'r dilyniant? Pa her oedd yr un fwyaf anodd? Trafodwch sut gellid bod wedi ymateb i'r her hon yn fwy effeithiol. Trafodwch gynllun y cyfarpar a'r defnydd a wnaed ohono, beth oedd yn effeithiol? Beth allai gael ei wella? Gosodwch darged ar gyfer y wers nesaf. Rhowch y cyfarpar i gadw. Dysgu gartref: gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r feddalwedd cynlluniau cyfarpar o Fodiwl 2 y Dull AGChY o Addysgu Gymnasteg, er mwyn creu cynllun o'r cyfarpar y maent wedi'i ddefnyddio ar gyfer eu dilyniant. Rhaid i'r dysgwyr wneud nodiadau ar y cynllun i gofnodi'r dilyniant, gan gynnwys y gweithrediadau a berfformiwyd a'r agweddau ar amrywiaeth a ddefnyddiwyd.

Modiwl 3	Cynllun gwers enghreifftiol	Uned 13 Gwers 3

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Dod o hyd i atebion i wahanol heriau
- Cynnig syniadau ar gyfer dilyniant i bâr
- Gweithio ar eu pen eu hunain ac mewn pâr i greu a pherfformio dilyniant sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth
- Gwylio perfformiad ei gilydd a dweud beth sy'n dda amdano a beth allai fod yn well
- Defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gynllunio sut i wella eu sgiliau eu hunain
- Adnabod rhai o'r egwyddorion sy'n sail i weithgareddau creadigol
- Cyfleu syniadau'n glir i bartner

Canlyniadau Gwers 3

Ar ôl cwblhau'r wers hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Dod o hyd i atebion i wahanol heriau
- Cynnig syniadau ar gyfer dilyniant i bâr
- Gweithio mewn pâr i greu a pherfformio dilyniant ar y cyfarpar
- Gwylio perfformiad ei gilydd a dweud beth sy'n dda amdano a beth allai fod yn well
- Defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gynllunio sut i wella eu sgiliau eu hunain
- Cyfleu syniadau'n glir i bartner

Adolygu

Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu gan ddefnyddio'r gêm Dail Lili a Brwyn o Fodiwl 2 y Dull AGChY o Addysgu Gymnasteg. Tynnwch y cyfarpar allan. Gofynnwch i'r dysgwyr adolygu eu dilyniant o'r wers ddiwethaf, gan geisio cyrraedd eu targedau. Gofynnwch iddynt ddweud wrth bartner sut llwyddon nhw i gyrraedd eu targedau, a thrafod ffyrdd eraill y gallent fod wedi gwella eu dilyniant. Dywedwch wrth y dysgwyr y bydd angen iddynt gofio'r dilyniant unigol hwn yn y wers nesaf.

Archwilio

Gofynnwch i'r dysgwyr archwilio rhai o'r heriau y buont yn gweithio arnynt yr wythnos diwethaf, ond gan weithio gyda phartner y tro hwn. Rhowch Gardiau Adnoddau - Trefniannau Gofodol o'r Dull AGChY o Addysgu Dawns CA2/3 i'r parau gael eu harchwilio'n ogystal, fel y bo'n briodol. Anogwch y dysgwyr i fod mor greadigol ag y gallant a defnyddio cynifer o'r gweithgareddau addysgu'r corff ag y gallant. Anogwch y dysgwyr i adeiladu ar y gwaith a wnaethant yn y wers ddiwethaf. Dylai Taflenni Gwybodaeth Modiwl 1 a 2 fod ar gael i'r dysgwyr gael edrych arnynt. Y dysgwyr fydd yn penderfynu ym mha drefn y byddant yn cysylltu'r heriau. Yna, rhaid i'r dysgwyr gynllunio cynllun cyfarpar ar gyfer perfformio eu dilyniant. Gofynnwch i'r dysgwyr archwilio posibiliadau'r cyfarpar, gan newid trefn y cyfarpar wrth iddynt weithio trwy eu dilyniant. Mae'n bosibl y bydd angen i chi ofyn i'r dysgwyr ddefnyddio darnau penodol o gyfarpar, yn dibynnu ar y cyfarpar a'r lle sydd ar gael. Mae'n bosibl y bydd angen i'r dysgwyr drafod â'i gilydd er mwyn rhoi'r cyfarpar yn y mannau y maent yn dymuno.

Creu

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r heriau i greu dilyniant o weithgareddau addysgu'r corff ar y cyfarpar, sy'n llifo'n rhwydd ac sy'n cael ei berfformio â gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth. Rhaid i'r dysgwyr benderfynu ym mha drefn y byddant yn perfformio'r heriau yn eu dilyniant er mwyn creu dilyniant llyfn. Rhaid i'r dysgwyr benderfynu sut bydd y cyfarpar yn cael ei drefnu a sut byddant yn defnyddio'r cyfarpar yn eu dilyniant hefyd.

Ymyrryd

Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos atebion effeithiol i'w heriau. Beth sy'n eu gwneud yn effeithiol? Trafodwch atebion posibl eraill i'r heriau: a fyddai'r rhain yn fwy neu'n llai effeithiol na'r atebion sy'n cael eu cynnig gan y dysgwyr, a pham? Dewiswch un pâr i rannu eu trafodaethau â'r gweddill. Pa syniadau a gyfrannwyd gan bob dysgwr? Pa mor effeithiol oeddent yn cyfathrebu? A oeddent yn cyfathrebu'n glir? A allent wella'r modd y maent yn cyfathrebu - os felly, sut? Trafodwch y defnydd a wnaed o gyfarpar: pa mor effeithiol y mae'r dysgwyr yn defnyddio'r cyfarpar? Sut gallai hyn gael ei wella? A oes darnau eraill o gyfarpar y gellid eu defnyddio? Sut byddai hyn yn gwella'r dilyniant? Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos sgiliau cydsymud a rheolaeth: sut maent wedi llwyddo i wneud hynny? Gofynnwch i'r dysgwyr wylio dilyniant, a gofynnwch beth sy'n dda amdano a beth allai fod yn well. Gofynnwch i'r dysgwyr gynllunio sut gallent wella'r dilyniant hwn pe bai'n rhan o'u gwaith nhw. Trafodwch y cynlluniau.

Perfformio

Gofynnwch i'r dysgwyr berfformio i bâr arall.

Gwerthuso

Sesiwn werthuso gan gyfoedion a gaiff ei harwain gan y dysgwyr. Gofynnwch i'r dysgwyr ddweud beth sy'n dda am y dilyniant a beth allai fod yn well. Dylai'r perfformwyr ddefnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio sut i wella eu dilyniant yn y wers nesaf. Gofynnwch i'r perfformwyr rannu eu cynlluniau â'r sawl sy'n gwylio. Rhowch y cyfarpar i gadw. Dysgu gartref: gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r feddalwedd cynlluniau cyfarpar o Fodiwl 2 y Dull AGChY o Addysgu Gymnasteg, er mwyn creu cynllun o'r cyfarpar y maent wedi'i ddefnyddio ar gyfer eu dilyniant. Rhaid i'r dysgwyr wneud nodiadau ar y cynllun i gofnodi'r gweithrediadau a berfformiwyd a'r agweddau ar amrywiaeth a ddefnyddiwyd. Atgoffwch y dysgwyr y bydd angen iddynt gofio eu dilyniant ar gyfer gwersi yn y dyfodol.

Modiwl 3	Cynllun gwers enghreifftiol	Uned 13 Gwers 4

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Dod o hyd i atebion i wahanol heriau
- Cynnig syniadau ar gyfer dilyniant i bâr
- Gweithio ar eu pen eu hunain ac mewn pâr i greu a pherfformio dilyniant sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth
- Gwylio perfformiad ei gilydd a dweud beth sy'n dda amdano a beth allai fod yn well
- Defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gynllunio sut i wella eu sgiliau eu hunain
- Adnabod rhai o'r egwyddorion sy'n sail i weithgareddau creadigol
- Cyfleu syniadau'n glir i bartner

Canlyniadau Gwers 4

Ar ôl cwblhau'r wers hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Cynnig syniadau ar gyfer dilyniant i bâr
- Gweithio mewn pâr i greu a pherfformio dilyniant ar y cyfarpar
- Adnabod rhai o'r egwyddorion sy'n sail i weithgareddau creadigol
- Cyfleu syniadau'n glir i bartner

Adolygu

Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu gan chwarae'r gemau Trenau a Thwneli a Llongau a Phontydd. Gofynnwch iddynt adolygu'r dilyniant unigol o'r wers ddiwethaf. Atgoffwch y dysgwyr y bydd angen iddynt gofio'r dilyniant hwn yn y wers nesaf.

Archwilio

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau. Cyflwynwch y weithred Dau Filwr yn Cropian gan ddefnyddio'r CD-Rom a'r Daflen Wybodaeth. Archwiliwch weithrediadau sy'n arwain i mewn i'r weithred Dau Filwr yn Cropian ac allan ohoni sy'n cysylltu â'i gilydd yn llyfn. Archwiliwch wahanol weithrediadau cerdded y gall y dysgwyr eu perfformio fel pâr cysylltiedig. Unwaith eto, archwiliwch y gweithrediadau sy'n arwain i mewn ac allan o'r syniadau hyn. Sicrhewch bod y dysgwyr yn gweithio'n ddiogel ac yn gyfrifol. Tynnwch y cyfarpar allan ac archwiliwch fwy o syniadau fel pâr cysylltiedig gan ddefnyddio'r cyfarpar i deithio mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft ar, ar hyd, oddi ar, dros, o gwmpas, dan, tuag at ac oddi wrth. Gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu syniadau ar gyfer gweithrediadau cysylltiedig. Trafodwch yr egwyddorion sy'n sail i weithgareddau creadigol - perfformio ag ansawdd, safle dechrau a gorffen â chyfres o weithrediadau cysylltiedig y gellir eu hailadrodd yn gywir ac sy'n dangos agweddau ar amrywiaeth ac ystod o drefniannau gofodol, ac sy'n adlewyrchu gofynion y dasg neu'r her gan fynd y tu hwnt i'r hyn sy'n amlwg a datblygu gweithrediadau newydd diddorol.

Creu

Gofynnwch i'r dysgwyr greu dilyniant fel pâr gan rolio ciwb symudiadau i benderfynu ar drefn yr heriau. Gall yr athro neu'r dysgwyr benderfynu ar gynnwys y ciwb symudiadau. Rhaid i'r dilyniant gynnwys o leiaf un weithred ar gyfer pâr cysylltiedig, a rhaid iddo gael ei berfformio â gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth.

Ymyrryd

Gofynnwch i'r dysgwyr pa syniadau y maent wedi'u cyflwyno. Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n dechrau arddangos dilyniant o ansawdd. Gofynnwch i'r dysgwyr nodi'r egwyddorion sy'n cael eu harddangos o ran gweithgareddau creadigol. Trafodwch pa mor glir y mae gwybodaeth yn cael ei chyfleu, ac a ellir gwneud unrhyw welliannau.

Perfformio

Gofynnwch i bob pâr berfformio i bâr arall.

Gwerthuso

Sesiwn werthuso gan gyfoedion a gaiff ei harwain gan y dysgwyr. Pa egwyddorion sy'n sail i weithgareddau creadigol a gafodd eu harddangos gan y pâr? Beth oedd yr agwedd fwyaf creadigol, a pham? Gofynnwch i'r pâr a oedd yn perfformio ddweud pa mor glir y mae gwybodaeth yn cael ei chyfleu iddynt a chynnig awgrymiadau ar gyfer gwella. Adolygwch y dilyniannau unigol o'r wers ddiwethaf; cyfeiriwch at y cynllun cyfarpar am ragor o wybodaeth. Rhowch y cyfarpar i gadw. Dysgu gartref: gofynnwch i'r dysgwyr gynllunio Taflen Wybodaeth ar gyfer un o'r gweithgareddau ar gyfer pâr cysylltiedig y maent wedi'i greu heddiw.

Modiwl 3	Cynllun gwers enghreifftiol	Uned 13 Gwers 5

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:
- Dod o hyd i atebion i wahanol heriau
- Cynnig syniadau ar gyfer dilyniant i bâr
- Gweithio ar eu pen eu hunain ac mewn pâr i greu a pherfformio dilyniant sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth
- Gwylio perfformiad ei gilydd a dweud beth sy'n dda amdano a beth allai fod yn well
- Defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gynllunio sut i wella eu sgiliau eu hunain
- Adnabod rhai o'r egwyddorion sy'n sail i weithgareddau creadigol
- Cyfleu syniadau'n glir i bartner

Canlyniadau Gwers 5

Ar ôl cwblhau'r wers hon, bydd y dysgwyr yn gallu:
- Cynnig syniadau ar gyfer dilyniant i bâr
- Gweithio ar eu pen eu hunain ac mewn pâr i greu dilyniant ar y llawr ac ar y cyfarpar
- Gwylio perfformiad ei gilydd a dweud beth sy'n dda amdano a beth allai fod yn well
- Defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gynllunio sut i wella eu sgiliau eu hunain
- Adnabod rhai o'r egwyddorion sy'n sail i weithgareddau creadigol
- Cyfleu syniadau'n glir i bartner

Adolygu

Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu gan ddefnyddio'r gweithgareddau ar gyfer pâr cysylltiedig a luniwyd ganddynt. Tynnwch y cyfarpar allan a gofynnwch i'r dysgwyr adolygu eu dilyniant unigol, gan gyfeirio at y cynllun cyfarpar yn ôl yr angen.

Archwilio

Cyflwynwch y weithred Rhôl â'r Traed yn Twtsh gan ddefnyddio'r CD-Rom a'r Daflen Wybodaeth. Archwiliwch weithrediadau sy'n arwain i mewn i'r weithred Rhôl â'r Traed yn Twtsh ac allan ohoni gan sicrhau bod y gweithrediadau'n cysylltu â'i gilydd yn llyfn. Archwiliwch wahanol weithrediadau rholio y gall y dysgwyr eu perfformio fel pâr cysylltiedig. Unwaith eto, archwiliwch y gweithrediadau sy'n arwain i mewn ac allan o'r syniadau hyn. Sicrhewch bod y dysgwyr yn gweithio'n ddiogel ac yn gyfrifol. Tynnwch y cyfarpar allan ac archwiliwch fwy o syniadau fel pâr cysylltiedig gan ddefnyddio'r cyfarpar i deithio mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft ar, ar hyd, oddi ar, dros, o gwmpas, dan, tuag at ac oddi wrth. Gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu syniadau ar gyfer gweithrediadau cysylltiedig. Defnyddiwch y ciwb symudiadau – Rholio'r Ciwb a Pherfformio i ddewis rhwng dwy a phum her a phenderfynu ym mha drefn y byddwch yn eu perfformio. Gweithiwch mewn pâr i benderfynu pa heriau y byddwch yn eu cyflawni'n unigol a pha rai y byddwch yn eu cyflawni mewn pâr. Rhaid i'r dysgwyr wneud o leiaf un her yn unigol ac un her mewn pâr. Anogwch y dysgwyr i gofnodi fframwaith eu dilyniant er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol. Anogwch y dysgwyr i gyfathrebu â'i gilydd yn glir er mwyn cyfiawnhau dewisiadau a gwneud penderfyniadau. Archwiliwch y gweithrediadau sy'n cysylltu'r gwaith unigol a'r gwaith pâr fel bod y cyfan yn llifo mor rhwydd ag sy'n bosibl.

Creu

Gofynnwch i'r dysgwyr greu dilyniant sy'n cynnwys rhwng dwy a phum her, gan gynnwys o leiaf un her unigol ac un her mewn pâr, lle bydd trefn yr heriau'n cael ei phenderfynu trwy rolio'r ciwb symudiadau. Gofynnwch i'r dysgwyr berfformio'r dilyniant â gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth. Rhaid i'r dilyniant hwn gynnwys o leiaf un weithred ar gyfer pâr cysylltiedig. Yn y dilyniant hwn, bydd y dysgwyr weithiau'n gweithio'n unigol ac weithiau'n gweithio mewn pâr. Bydd yr union drefn yn cael ei phennu trwy rolio'r ciwb symudiadau.

Ymyrryd

Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n gweithio'n greadigol. Beth maent wedi'i wneud sy'n gwneud eu gwaith yn greadigol? Beth sy'n dda am waith y dysgwyr? Cyfeiriwch at glipiau fideo ar y CD-Rom i atgyfnerthu beth yw gwaith o ansawdd. A allai fod yn well? Sut gellir ei wella? Sut gallech wella eich gwaith eich hun?

Perfformio

Gofynnwch i'r dysgwyr berfformio i bâr arall. Gofynnwch i'r pâr sy'n gwylio recordio'r perfformiad ar gamera digidol.

Gwerthuso

Sesiwn werthuso gan gyfoedion a gaiff ei harwain gan y dysgwyr. Edrychwch yn ôl ar y fideo er mwyn gallu cyfiawnhau unrhyw sylwadau. Beth oedd yn dda am ddilyniant y pâr? Beth oeddech chi'n ei hoffi, a pham? Gofynnwch i'r dysgwyr ddisgrifio sut roeddent wedi perfformio fel pâr cysylltiedig. Pa agwedd ar ddilyniant y pâr allai gael ei gwella? Gofynnwch i'r pâr sy'n perfformio gynllunio sut i wella eu dilyniant yn y wers nesaf. Trafodwch fel pâr pa mor glir y mae'r pâr arall wedi cyfleu eu syniadau ynghylch gwella'r gwaith? Sut gallant gyfathrebu'n gliriach? Dysgu gartref: gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn pâr i greu cynllun gwella i'w ddefnyddio yn y wers nesaf.

Modiwl 3	Cynllun gwers enghreifftiol	Uned 13 Gwers 6

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Dod o hyd i atebion i wahanol heriau
- Cynnig syniadau ar gyfer dilyniant i bâr
- Gweithio ar eu pen eu hunain ac mewn pâr i greu a pherfformio dilyniant sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth
- Gwylio perfformiad ei gilydd a dweud beth sy'n dda amdano a beth allai fod yn well
- Defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gynllunio sut i wella eu sgiliau eu hunain
- Adnabod rhai o'r egwyddorion sy'n sail i weithgareddau creadigol
- Cyfleu syniadau'n glir i bartner

Canlyniadau Gwers 6

Ar ôl cwblhau'r wers hon, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Gweithio ar eu pen eu hunain ac mewn pâr i greu a pherfformio dilyniant sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth
- Gwylio perfformiad ei gilydd a dweud beth sy'n dda amdano a beth allai fod yn well
- Defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gynllunio sut i wella eu sgiliau eu hunain

Adolygu

Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu gan ddefnyddio syniadau'r dysgwyr ar gyfer gweithrediadau cysylltiedig a'r gweithrediadau Dau Filwr yn Cropian a Rhôl â'r Traed yn Twtsh, gan sicrhau eu bod yn cysylltu'r gweithrediadau hyn yn llyfn gan gynnwys gweithrediadau sy'n arwain i mewn iddynt ac allan ohonynt.

Archwilio

Archwiliwch yr awgrymiadau ar gyfer gwella a nodwyd yn y wers ddiwethaf, a thrafodwch pa mor effeithiol oedd cynlluniau'r dysgwyr ar gyfer gwella eu dilyniant.

Creu

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio ar eu pen eu hunain ac mewn pâr i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr ac ar y cyfarpar, sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth ac sy'n cynnwys o leiaf un weithred ar gyfer pâr cysylltiedig. Unwaith eto, bydd y dysgwyr weithiau'n gweithio'n unigol ac weithiau'n gweithio mewn pâr.

Ymyrryd

Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth. Beth maent wedi'i wneud i gyflawni hyn? Beth y mae angen i chi ei wneud i'ch dilyniant i wella eich sgiliau cydsymud a'ch rheolaeth ymhellach fyth? Beth sy'n dda am y gwaith a beth allai fod yn well? Sut gallent wella eu gwaith? Pa weithrediadau addysgu'r corff ydych chi wedi'u cynnwys hyd yn hyn? Pa weithrediadau addysgu'r corff ydych chi wedi'u gadael allan? A oes cyfle i gynnwys unrhyw un o'r gweithrediadau hyn yn rhywle? Trafodwch rwyddineb a llif; sut gallwn ni wella'r agweddau hyn ar ein gwaith?

Perfformio

Gofynnwch i'r dysgwyr berfformio i bâr arall.

Gwerthuso

Sesiwn werthuso gan gyfoedion a gaiff ei harwain gan y dysgwyr. Beth oedd yn dda am ddilyniant y pâr? Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio system raddio diemwnt i restru beth oedd yn dda am ddilyniant y pâr. Cyfiawnhewch eich rhestr gan esbonio pam roeddech wedi hoffi rhai agweddau'n fwy na'r lleill? Disgrifiwch sut roeddent wedi perfformio fel pâr cysylltiedig. Pa agwedd ar ddilyniant y pâr allai gael ei gwella? Gofynnwch i'r pâr a oedd yn perfformio ddefnyddio'r wybodaeth i gynllunio sut i wella eu sgiliau yn y dyfodol. Defnyddiwch y Cardiau Adnoddau i brocio'r cof er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn defnyddio terminoleg briodol ac yn cynnig sylwadau ar gynifer o agweddau ag sy'n bosibl.